# CYNNIG I DDIWYGIO CYFRWNG IAITH ADDYSG CYFNOD SYLFAEN A DERBYN DISGYBLION 3 OED YN RHAN-AMSER YN YSGOL GYNRADD CEI NEWYDD

**GWASANAETHAU DYSGU**

## DOGFEN YMGYNGHORI

## Gwybodaeth Atodol

**Hydref 2023**

**Cyngor Sir Ceredigion**

**Cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith addysg cyfnod sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cei Newydd**

**Manylion am yr ysgolion a effeithir**

Mae'r canlynol yn rhestr o'r ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig.

| Enw'r Ysgol | Categori'r Ysgol | Categori Iaith yr Ysgol | Ystod Oedran | Nifer Lleoedd Meithrin |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Cei Newydd | Cynradd Gymunedol | T2 | 4 - 11 | Dim darpariaeth feithrin |
| Ysgol Gynradd Bro Siôn Cwilt | Cynradd Gymunedol | Categori 3 | 3 - 11 | Darpariaeth feithrin |
| Ysgol Gynradd Llanarth | Cynradd Gymunedol | Categori 3 | 3 – 11 | Dim darpariaeth feithrin |

**Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Rhagfyr 2022)**

**T2**: *Er mwyn helpu i annog cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, rydym wedi cynnwys yr hyn rydym yn ei alw'n 'is-gategorïau trosiannol' fel categorïau pontio. Byddai'r trefniadau pontio hyn yn galluogi ysgolion i gynllunio sut y byddant yn cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser. Pwysleisiwn yma mai cynyddu'r ddarpariaeth o'r Gymraeg, a hynny er mwyn symud i'r categori nesaf, yw nod yr is-gategorïau trosiannol. Ni ddylai categorïau trosiannol fod yn barhaol. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gytuno ar gynlluniau i gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac ymgorffori hyn yn eu CSCA. Disgwylir i awdurdodau lleol gynllunio'n ddwys yn ystod pum mlynedd cyntaf eu Cynllun. Yn yr un modd, disgwylir i benderfyniadau fydd yn symud ysgol ar hyd y continwwm gael eu gwneud yn ystod y pum mlynedd cyntaf. Ni ddylai unrhyw gategori trosiannol bara mwy na 10 mlynedd.*

**3: Cyfrwng Cymraeg**: *Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.*

*Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.*
*O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.*

**Safon yr addysg feithrin a pha mor ddigonol yw'r trefniadau a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth a'r awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin:**

Mae Cylch Meithrin Cei Newydd yn lleoliad gofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer plant 2-4 oed yn ystod y tymor (6 awr y dydd).

Mae'r Cylch wedi'i leoli mewn caban pwrpasol yn y dref, sydd beth pellter o'r ysgol, gydag ond ychydig o bafin ar gael.

Mae'r lleoliad yn cael ei reoli gan bwyllgor gwirfoddol ac mae wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau i gefnogi plant cyn oed ysgol yng Nghei Newydd.

Mae'r gwasanaeth gofal plant wedi'i gofrestru gyda, ac yn cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae'n darparu'r Cynnig Cymraeg..

Mae'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chynnig dan gytundeb â Chyngor Sir Ceredigion ac yn cael ei harolygu gan Estyn.

Mae'r lleoliad yn cynnig addysg gynnar yn ystod y bore, ac elfennau gofal plant Cynnig Llywodraeth Cymru o 30 Awr o |Ofal Plant ar gyfer rhai 3-4 oed yng Nghymru, gan sicrhau bod gofal plant cofleidiol ar gael yn un lle ar gyfer rhieni sy'n gweithio.  Mae hyn yn cydymffurfio â menter Llywodraeth Cymru i gael plant i aros yn un lleoliad, i sicrhau dilyniant yn eu gofal ac ymlyniadau cryf yn ystod eu datblygiad cynnar, gan leihau'r nifer o weithiau mae plentyn yn symud o un lle i'r llall yn ystod y dydd.

Ers Ebrill 2023 mae Cylch Meithrin Cei Newydd wedi'i nodi fel un o'r meysydd ehangu newydd ar gyfer Dechrau'n Deg, sy'n cynnig 12.5 awr o ofal plant yr wythnos ar gyfer plant 2 oed.

Mae'r Cylch wedi elwa'n sylweddol o Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant (2018-2022) a'r Grant Cyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (2022-2025) i wella'i amgylchedd dan do ac awyr agored a'i adnoddau chwarae, i helpu i gyflenwi'r Cwricwlwm i Gymru.  Mae telerau ac amodau'r grant hwn yn golygu rhoi sicrwydd y bydd gwasanaeth gofal plant yn cael ei ddarparu am bum mlynedd ar ôl ei dderbyn.

Mae Cylch Meithrin Cei Newydd hefyd yn cynnig clwb gwyliau dros wyliau'r haf ar gyfer plant 2-8 oed yn ystod y cyfnod twristiaeth prysur, yn sgil y galw o du rhieni sy'n gweithio.

Mae plant 2-4 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa o gymorth ychwanegol drwy'r Cynllun Cyfeirio, sydd ddim ar gael mewn ysgolion.

Mae Grant Cymorth Ychwanegol ar gael hefyd ar gyfer plant sy'n gymwys i dderbyn y Cynnig Gofal Plant, i gael cymorth gan staff ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol.

Gall y lleoliad gofal plant hwn hefyd dderbyn cyllid Ymuno, sydd ar gyfer Gofal cofrestredig y Tu Allan i Oriau Ysgol, i gwrdd ag anghenion plant tra maent yn y lleoliad.

Ers 2018  (dyddiad yr arolygiad Estyn diwethaf) gwnaed newidiadau i'r pwyllgor rheoli gwirfoddol, gyda strwythur staffio newydd yn cael ei roi ar waith (4 aelod staff a staff banc).

Mae'r adroddiadau diweddaraf ar gael yma:

Cylch Meithrin Cei Newydd | Estyn (gov.wales) 2017

Cylch Meithrin Cei Newydd | Estyn (llyw.cymru) 2017

Cylch Meithrin Cei Newydd | Arolygiaeth Gofal Cymru

"Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Cymraeg."

"Mae'r lleoliad yn addas i blant chwarae a chael profiadau dysgu."

**A oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal ai peidio:**

Mae'r ddarpariaeth bresennol (19 o leoedd) yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion lleol.

Mae'r gyfradd genedigaethau'n parhau'n gyson yn yr ardal.

Fodd bynnag, mae cynnig ar droed ar gyfer safle datblygu tai mawr yn yr ardal.

**Lefelau'r galw am fathau arbennig o addysg feithrin e.e. cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth o natur grefyddol:**

Gall Cylch Meithrin Cei Newydd dderbyn plant pan fyddant yn 2 oed, gan olygu bod plant yn cael eu trochi yn y Gymraeg o oedran cynnar.

Mae'r Addysg Gynnar ar gyfer rhai 3-4 oed yn cael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cael ei hariannu drwy Gytundeb â Chyngor Sir Ceredigion ers Tymor yr Haf 2004.

Mae'r lleoliad hwn bellach yn cynnig darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg i rai 2 oed yn sgil ehangu'r cynllun.

Darperir cymorth gan yr Uwch Athro Ymgynghorol – Addysg Gynnar ar gyfer rhai 3 oed ac Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg ar gyfer rhai 2 oed.

**Effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector:**

Mae pob Cylch yn elusen/busnes annibynnol gyda bwrdd rheoli gwirfoddol, sy'n gyfrifol am eu cyfrifon banc annibynnol, cyfrifon blynyddol, recriwtio, cyfrifoldebau staffio a rheoli'r busnes.

Maent yn talu aelodaeth i sefydliad ymbarél i gael cymorth a chyngor (Mudiad Meithrin).

Cyllid ar gyfer addysg i rai 3 oed yw prif incwm y lleoliad hwn ac mae'n angenrheidiol er mwyn cynnal y ddarpariaeth.

Os ydy'r addysg yn cael ei darparu yn yr ysgol, ni ellir gwarantu gofal cofleidiol. Mi fydd angen sicrhau cymarebau staffio i wneud yn siŵr bod y plant yn cael eu hebrwng yn ddiogel wrth gerdded o'r ysgol yn ôl i'r Cylch ar gyfer gofal cofleidiol, gan gynnwys lleoedd Cynnig Gofal Plant wedi'u hariannu.

Nid yw darparu gofal plant Dechrau'n Deg yn unig yn opsiwn ymarferol yn ariannol yn sgil costau staff uwch y gymhareb oedolyn i blentyn.

Mae'r diffyg gofal plant yng Ngheredigion wedi'i nodi yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, ac mae angen darpariaeth ar gyfer plant yr ardal. Cylch Meithrin Cei Newydd yw'r unig ddarpariaeth Gofal Plant gofrestredig yn yr ardal ar hyn o bryd.

Os bydd yr addysg gynnar yn cael ei symud o'r Cylch i'r Ysgol, ni fydd TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)) yn berthnasol i staff am nad ydynt efallai â statws athro cymwysedig.

**I ba raddau y bydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu pa mor gyson ydyw â dull integredig:**

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, mi fydd gan rieni ddewis, sef bod eu plentyn yn aros yn y lleoliad nas cynhelir, neu'n mynychu'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn rhan-amser. Bydd y broses o integreiddio addysg gynnar â gwasanaethau gofal plant yn cael ei monitro a'i chefnogi.

Am fod y ddarpariaeth gofal plant bresennol wedi'i lleoli beth pellter o'r ysgol mi allai o bosib arwain at golli gofal cofleidiol, a allai newid patrymau gwaith rhieni, a fydd yn cael effaith ar yr economi leol.

Mi fydd angen sicrhau cymarebau staffio i wneud yn siŵr bod y plant yn cael eu hebrwng i gerdded yn ddiogel o'r ysgol yn ôl i'r Cylch ar gyfer gofal cofleidiol, gan gynnwys lleoedd Cynnig Gofal Plant wedi'u hariannu.

**Amserlen ymgynghori ddiwygiedig:**

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| **15 Medi 2023** | **Cyfnod yr ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau:** Cynhelir cyfnod o ymgynghoriad ffurfiol, yn ystod yr amser hwn gall y rhai sydd â diddordeb fynegi eu barn am y cynnig. |
| **17 Tachwedd 2023** | **Estyniad i'r Ymgynghoriad Ffurfiol yn Dod i Ben** |
| **6 Chwefror 2024** | **Adroddiad yr Ymgynghoriad Ffurfiol:** Ar ddiwedd cyfnod yr ymgynghoriad ffurfiol, bydd yr ymatebion yn cael eu casglu ynghyd a'u cyflwyno i'r Cabinet ar ffurf Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Ffurfiol, gan gynnwys argymhelliad gan Swyddogion. Mi fydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ceredigion. |
| **Chwefror 19 2024** | **Cyfnod yr Hysbysiad Statudol yn dechrau:** Os caiff y cynnig ei dderbyn gan y Cabinet, cyhoeddir Hysbysiad Statudol. Yn ystod y cyfnod Gwrthwynebu statudol, rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad yn ysgrifenedig a'i anfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig. |
| **18 Mawrth 2024** | **Cyfnod yr Hysbysiad Statudol yn dod i ben** |
| **4 Mehefin 2024** | **Cabinet:** Adrodd ar y nifer o wrthwynebiadau a dderbyniwyd a phenderfynu a ddylid rhoi'r cynnig ar waith ai peidio. |